VISIT
BON MARCHE
PWLLHELI
FOR
AUTUMN
FASHIONS

Y CYMRO

# O LANGYNDEYRN I FLAENAU TYWI

## Newid maes y frwydr i ardal brin ei phobl



Dyma'r cwm a fygythir ac eisoes mae'r peirianwyr wrthi'n drilio'r tir ac yn anfon y samplau a godir i ffwrdd i'w dadansoddi.

**LAI na phythefnos wedi'r dathliad yn Llangyndeyrn i gofio'r fuddugoliaeth ar Abertawe, a rhai o drefi Morgannwg a fu'n cynnig codi cronfa ddŵr yn y lle y mae'r ardalwyr hynny ym Mlaenau'r Tywi, tua Rhandirmwyn, y taflwyd y baich arnynt, yn dechrau torchi eu llewys am frwydr arall. Rhan o gryfder brwydr Llangyndeyrn oedd dangos bod lleoedd fel Ucheldiroedd y Tywi yn haws eu gweithio ac yn debygol o achosi llai o niwed i bobl.**

Am y tro cyntaf erioed felly y mae'r dŵr wedi llifo'n ôl i'r Blaenau, a rhaid i ymladdwyr Llangyndeyrn gymryd rhan o'r cyfrifoldeb am hynny.

Cafwyd adroddiadau a honnai nad oedd nemor ddim gwrthwynebiad i'r cynllun o sefydlu cronfa neu gronfeydd yng nghyffiniau Ystradffin, ac yn wir, fe ddechreuwyd y tyrchu am seiliau yno yn weddol ddifwstwr. Ond fel mae'r darpariaethau'n dod i'r golwg a'r gweithwyr yn dechrau cerdded y tir mae'r gwrthwynebiad yn dechrau ffyrnigo.

Ni chafwyd y ddarpariaeth a'r beirianwaith amddiffyn a gaed yn Llangyndeyrn mewn ardal brin ei phobl a digyswllt ei ffermdai a'i thyddynnod, ond eisoes, cafwyd un cyfarfod cytun ac y [illegible] protest pellach yr wythnos hon.

Ar yr olwg gyntaf mae'r achos yn wan gan mai mynydd-dir sy'n agos a bod yn ddiffaith yw llawer o'r tir a fygythir a hwnnw'n cynnal dim ond ychydig o amaethwyr defaid yn bennaf. Ar y llaw arall, y mae'n wlad odidog o hardd na all dieithryn ddychmygu mor rhamantus ydyw gyda'i chribau creigiog a'i hafnau dyfnion rhaeadrol.

Dyma fro'r hen adyn enwog hwnnw, Twm Shon Cati, a'i ogof uwchlaw'r dyfroedd gwyllt yn gyrchfan miloedd o bererindodwyr.

Cadwyd rhan o'r cylch yn faes "Cadwraeth Natur" hefyd ac y mae'n gyrchfan nodedig i bysgodwyr y De a fydd, mae'n siwr, ar eu gorau glas yn amddiffyn un o'i meysydd mwyaf toreithiog.

Nid yw'r boneddigion sy'n canlyn y bluen yn ddigyfalaf o bell ffordd ac y mae arwyddion eu bod hwy a rhai o arweinwyr blaenllaw byd natur yn paratoi amddiffyniad glew.

Ni chodwyd protest gref ar y dechrau ond ychwanegwyd at y cynnwrf yn ddiweddar am fod rhywun wedi "darganfod" map sy'n awgrymu y bydd Abertawe yn chwennych rhagor nag a awgrymwyd yn y lle cyntaf, a'r rhagor hwnnw yn mynd i fygwth cartrefi a chapel.

### Ymadael

Anhawster arall yw fod tiroedd helaeth Ystradffin wedi mynd i ddwylo Ystad Cawdor a bod yr Arglwydd Cawdor ifanc yn bleidiol i roi tir ei denantiaid at wasanaeth yr awdurdodau sydd am godi'r gronfa.

Y mae'n hysbys hefyd ei fod wedi rhoi rhybudd i ymadael i lawer o'i denantiaid a'i fod yn gyffredinol yn gweithredu'r egwyddor o glymu'r lleoedd bychain ar ei ystad yn unedau mawr, yma ac yn ardal Castell Newydd Emlyn. Nid yw'r Comisiwn Fforestydd, sy'n berchen peth o'r tir, yn gwrthwynebu chwaith.

Ychydig felly yw'r tirfeddianwyr preifat ac yn eu plith y mae Miss Jane Jones a'i brawd yn Nhroedyrhiw, a Mr. Emlyn Jones, Troedrhiwcymer, gerllaw. Mr. Emlyn Jones oedd cadeirydd y cwrdd a gynhaliwyd, ac fe enwyd Miss Jones fel un o'r gwrthwynebwyr mwyaf pybyr.

Mae Miss Jones mewn gwth o oedran, yn fonheddig ei ffordd, ond ni ellir wfftio ei safiad fel rhywbeth y gellir ei oresgyn yn hawdd. Bu Miss Jones yn brwydro am ei thir hi a'i brawd o'r blaen a'r pryd hwnnw, yn 1952, fe gafwyd buddugoliaeth enwog. "Ffaro'r Fforest" oedd y gelyn y tro hwnnw a bygythiai 46 o ffermydd yn y fro.

Un o drysorau dreser Troedyrhiw yw ei llun hi yn cyflwyno tysteb i'r diweddar Mr. [illegible] Morris a Mr. J. B. Evans, dau o'r arweinwyr ar y pryd.

Mae gan Miss Jones a'i brawd 900 erw o dir a dwy filltir ohono ar lan y Tywi, ac [illegible] yn colli 200 erw o'r eiddo.

"Nid yw hynny'n swnio'n llawer allan o'r cyfan," meddai, "ond fe olyga ein bod yn cadw tua 250 yn llai o ddefaid ac yn waeth na dim, ein bod yn colli'r cysgodau a'r llethrau i'r 1,150 eraill a fydd ar ol.

### Cadw bugail

Fe fydd yn rhaid i ni gadw bugail o hyd er i ni golli 30s. y pen ar 250 o ddefaid i dalu'r un cyflog."

Nid oedd yr Awdurdodau wedi cynnig unrhyw bris iddynt am y tir hyd yn hyn ond nid oeddynt yn mynd i ildio ar chwarae bach, beth bynnag.

Mae Troedyrhiw ei hun yn Sir Aberteifi ac y mae'r Jonesiaid yn gobeithio cael cefnogaeth Mr. Roderic Bowen ac yn gobethio hefyd cael cefnogaeth Mr. Gwynfor Evans, Llywydd y Blaid, a wnaeth les mawr yn y frwydr o'r blaen, meddai hi.

Dywedodd fod "pobol Abertawe" wedi cael notis i gwrdd â ni yn y cyfarfod nesa fel y gellid eu cwestiyno.

Yn y cyfamser mae'r tyrchwyr yn drilio i lawr tua 200 troedfedd i'r graig las a'r dwr a dywelltir ar y dril wrth droi yn rhedeg yn boeth oddi wrtho. Nid dyma'r unig "ddwr poeth" a welir ym mlaenau'r Tywi yn y misoedd nesaf yma, oni chamddeallaf yr arwyddion.

D.J.D.



Miss Jane Jones, Troedyrhiw

## Diddordeb mawr yn y dyfeisiadau

MAE diddordeb mawr yn y Gystadleuaeth Dyfeisio Peirianau a drefnir gan y Gymdeithas Amaethyddol Frenhinol Gymreig.

Beirniedir y dyfeisiadau mewn dwy ganolfan yng Nghymru yn vstod yr hydref hwn. Yn Sioe Meirion yn Nhowyn, Medi 11, ac yng Nghystadleuthau Aredig Cenedlaethol Cymru yng Nghastell Lloyd, Pentwyn, Hydref 9.

Bydd pedwar o feirniaid yn archwilio'r dyfeisiadau, ac wedi iddynt benderfynu pa rai yw'r gorau, caiff y rhai a ddaw i'r ddau gyfarfod hyn weld y peiriannau'n gweithio.

## Rhieni'n

FIS Medi diwethaf agorwyd Ysgol Feithrin Gymraeg i blant gweithwyr dur John Summers a gweithwyr Courtalds yn nhref y Fflint — ac mae'r fenter wedi bod yn llwyddiant diamheuol.

Eisoes mae'r plant bach, a ddaw bron i gyd o gartrefi di-Gymraeg, yn deall pob gair a ddywedir wrthynt yn Gymraeg, a mwy na hynny — maent wedi torri trwy'r 'bar' iaith ac yn siarad Cymraeg a'u hathrawesau, ac ar brydiau a'i gilydd.

Medd Miss Ffuonwen Roberts, yr athrawes sydd yng ngofal y dosbarth: "Mae'r arbrawf yn sicr wedi bod yn llwyddiant ac mi fydd yn llwyddiant. Mae'r plant yn siarad Cymraeg yn naturiol a fi."

Mor llwyddiannus a fu'r ar